Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cynigion trefnadaeth ysgolion

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026



Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cynigion trefnadiaeth ysgolion

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026

Mae'r canllaw hwn i etholwyr yn diweddaru ein canllaw o 2021 i adlewyrchu newidiadau a gyflwynwyd yn nhrydydd argraffiad y Cod Trefniadaeth Ysgolion, a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2026.

Mae'r prif ddiweddariadau yn cynnwys ychwanegu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) fel corff perthnasol; gofyniad newydd am Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer pob cynnig; aliniad cryfach â Cymraeg 2050 a'r Cwricwlwm i Gymru; a newidiadau sy'n adlewyrchu'r newid o'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) i'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd wrth iddynt gynorthwyo eu hetholwyr. Ni fwriedir iddi gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.

Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**



# Cynnwys


**1. Cyflwyniad .......... 7**

**2. Trosolwg o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion .......... 8**

Pwy yw'r 'cyrff perthnasol'? .......... 8

**3. Datblygu ac ystyried cynigion .......... 10**

Pwy all gyflwyno cynigion? .......... 10

Beth ddylid ei ystyried wrth ddatblygu cynigion? .......... 11

Ansawdd a safonau .......... 11

Yr effaith ar y Gymraeg .......... 12

Yr angen am leoedd a hygyrchedd .......... 12

Goblygiadau o ran adnoddau ac arian .......... 13

Ffactorau cyffredinol eraill .......... 13

Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig .......... 14

Yr effaith ar gymunedau .......... 14

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) .......... 14

Ffactorau penodol ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion .......... 15

**4. Ymgynghori ynglŷn â chynigion .......... 16**

Gofynion ymgynghori .......... 16

Y ddogfen ymgynghori .......... 16

Ymgyngoreion .......... 17

Adroddiad ar yr ymgynghoriad .......... 18

**5. Cyhoeddi cynigion ar ffurf hysbysiad statudol .......... 20**

**6. Penderfynu ar gynigion a'u gweithredu .......... 21**

Adroddiadau gwrthwynebu .......... 21

Awdurdodau lleol yn penderfynu .......... 22

Eithriadau i'r rheol gyffredinol bod awdurdodau lleol yn penderfynu ynghylch cynigion .......... 22

Nodyn ar ddarpariaeth ôl-16 .......... 23

Cynigion a wneir gan gyrff eraill .......... 23

Atgyfeirio penderfyniadau i Weinidogion Cymru .......... 24

Camau gweithredu pellach i bartïon anfodlon ....... 25

**7. Ymyrraeth a chynigion y tu allan i'r broses safonol ....... 26**

Cynigion gan Weinidogion Cymru ....... 26

Proses a gweithdrefn ....... 26

Darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) 27

Cynigion gan Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) ....... 27

# 1. Cyflwyniad

## Gelwir cynigion i gau, uno neu aildrefnu ysgolion, neu wneud newidiadau i'w categori llywodraethu neu gyfrwng iaith, yn gynigion trefniadaeth ysgolion, y mae'n rhaid eu cyflawni yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ('Deddf 2013').

Mae **Cod Trefniadaeth Ysgolion** (trydydd argraffiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026) Llywodraeth Cymru yn nodi gofynion statudol ac yn darparu canllawiau y mae'n rhaid i 'gyrff perthnasol' eu dilyn wrth ddatblygu a phenderfynu ar gynigion.

Mae'r fersiwn ddiweddaraf hon o'r Cod yn berthnasol o 30 Mawrth 2026, ac yn gyffredinol mae'n disodli'r fersiwn flaenorol. Fodd bynnag, mae cynigion a ddechreuodd y broses ymgynghori cyn 30 Mawrth 2026 yn cael eu penderfynu o dan y Cod cynharach, a gyhoeddwyd yn 2018.

Mae'r Cod yn sail i system lle **mae'r rhan fwyaf o gynigion yn cael eu penderfynu yn lleol (fel arfer gan awdurdodau lleol)**, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r prosesau gofynnol.

Mae'r canllaw hwn wedi'i anelu at Aelodau o'r Senedd a'u hetholwyr i gynorthwyo gyda achos ar fater a all arwain at lawer o ymholiadau a chwestiynau gan y rhai y mae cynigion trefniadaeth ysgolion yn effeithio arnynt. Bwriedir iddo ategu'r **siart llif darluniadol o'r broses** a ddarperir yn Atodiad A i'r Cod, y gall darllenwyr hefyd fod eisiau cyfeirio ato.

Mae'r canllaw hwn yn adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd yn nhrydydd argraffiad y Cod, yn ogystal â datblygiadau ehangach ym mholisi a deddfwriaeth addysg Cymru, gan gynnwys **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**, **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**, a **Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022**.

# 2. Trosolwg o’r Cod Trefniadaeth Ysgolion

**Mae’r Cod Trefniadaeth Ysgol (trydydd argraffiad, Mawrth 2026) yn darparu fframwaith statudol sy'n llywodraethu cynigion trefniadaeth ysgolion. Yn bwysig, mae’r Cod yn gwahaniaethu rhwng yr hyn y mae’n *rhaid* i gyrff perthnasol ei wneud a’r hyn y *dylent* ei wneud.**

Mae’r Cod:

- yn gosod gofynion y mae’n rhaid i gyrff perthnasol weithredu’n unol â hwy (“**rhaid**”);
- yn darparu canllawiau statudol y mae'n rhaid i gyrff roi sylw dyledus iddynt (“**dylai**");
- yn nodi cyd-destun polisi, egwyddorion a ffactorau i'w hystyried; ac
- yn pennu gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori, cyhoeddi, gwrthwynebu a phenderfynu.

[Noder: Defnyddir 'penderfyniad' a 'penderfynu' yn y Cod a thrwy gydol y canllaw hwn, ac ystyr hyn o safbwynt cyfreithiol yw “**the resolution of a question, dispute, or controversy by a court, agency, or other authoritative body**.”]

Cyn Deddf 2013, byddai unrhyw wrthwynebiad cofrestredig ffurfiol i gynnig yn cael ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru i benderfynu arno. Ers Deddf 2013, fodd bynnag, y ‘corff perthnasol’ sy’n penderfynu ar gynigion fel arfer (awdurdodau lleol yn y rhan fwyaf o achosion), ar yr amod eu bod yn dilyn y broses statudol, er bod eithriadau penodol lle mae'n rhaid atgyfeirio penderfyniadau at Weinidogion Cymru, neu lle gellir gwneud hynny.

### Pwy yw'r 'cyrff perthnasol'?

Yn fersiwn ddiweddaraf y Cod Trefniadaeth Ysgolion, y 'cyrff perthnasol' yw:

- Gweinidogion Cymru;
- awdurdodau lleol;
- cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir;
- **y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y gelwir yn Medr)**; a
- hyrwyddwyr eraill cynigion i sefydlu ysgolion gwirfoddol.

Mae cyflwyno Medr fel corff perthnasol yn un o'r diweddariadau mwyaf arwyddocaol i'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cod: gwnaeth **Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** ddileu pwerau ailstrwythuro uniongyrchol Gweinidogion Cymru ar gyfer y chweched dosbarth a rhoi goruchwyliaeth strategol i Medr ar gyfer cynigion sy'n effeithio ar y chweched dosbarth.

Os nad yw awdurdod lleol neu benderfynwr arall yn dilyn y rheolau cyfreithiol a nodir yn y Cod, gellir herio eu penderfyniad trwy adolygiad barnwrol.

# 3. Datblygu ac ystyried cynigion

## Pwy all gyflwyno cynigion?

Mae’r rhan fwyaf o gynigion trefniadaeth ysgolion yn cael eu cyflwyno gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae gan wahanol fathau o ysgolion wahanol ofynion ynghylch cynigion trefniadaeth, fel yr amlinellir yn y tabl isod.

| Math o ysgol | Y gallu i wneud cynigion |
|---|---|
| **Ysgolion cymunedol ac ysgolion arbennig cymunedol**<br>[*Ysgolion a gynhelir sy'n eiddo i'r awdurdod lleol ac yn cael eu rhedeg ganddo. Yr awdurdod lleol sy’n gosod y meini prawf mynediad, fel y dalgylch, ac yn penderfynu pa blant sy'n gymwys i gael lle.*] | Yr unig gynnig y gall corff llywodraethu’r ysgol ei gyhoeddi ei hun yw newid categori; mae angen i’r awdurdod lleol gyhoeddi pob cynnig arall, fel cau neu newid sylweddol. |
| **Ysgolion gwirfoddol a reolir**<br>[*Cael eu rhedeg gan sefydliad gwirfoddol (fel yr Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Gatholig Rufeinig). Maent yn cael eu rheoli gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflogi'r staff ac yn gosod y meini prawf mynediad, ond mae’r tir a’r adeiladau yn eiddo i'r elusen (yn aml i'r eglwys) sy'n penodi rhai aelodau o'r corff llywodraethu.*] | Gall unrhyw un wneud cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol newydd. Fodd bynnag, dylai awdurdodau lleol weithio gyda’r corff crefyddol perthnasol yn achos cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol ac iddi gymeriad crefyddol. |
| **Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir**<br>[*Yn cael eu rhedeg gan sefydliadau gwirfoddol (fel arfer yr Eglwys Gatholig Rufeinig neu'r Eglwys yng Nghymru) sy'n cyflogi staff, yn gosod meini prawf mynediad, ac fel arfer yn berchen ar adeiladau a thir yr ysgol.*] | Gall unrhyw un wneud cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol newydd. Fodd bynnag, dylai awdurdodau lleol weithio gyda’r corff crefyddol perthnasol yn achos cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol ac iddi gymeriad crefyddol. |
| **Ysgolion sefydledig ac ysgolion arbennig sefydledig** | Mae Deddf 2013 yn atal ysgol rhag newid ei chategori i ddod yn ysgol |

| | |
|---|---|
| [*Naill ai'n eiddo i'r corff llywodraethu neu sefydliad elusennol sy'n gosod y meini prawf mynediad, gydag ychydig iawn o reolaeth gan yr awdurdod lleol.*] | sefydledig, ac nid oes unrhyw ysgol sefydledig newydd yn gallu cael ei sefydlu yng Nghymru.<br>Fodd bynnag, gall cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig presennol gyflwyno cynigion i gau'r ysgol, newid ei chategori, neu wneud newid rheoleiddiedig. |
| **Unedau cyfeirio disgyblion**<br>[*Yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol i ddarparu addysg i ddysgwyr sydd wedi'u gwahardd neu sy'n agored i niwed y tu allan i ysgolion prif ffrwd, yn aml mewn lleoliadau llai gyda chefnogaeth a darpariaeth fwy teilwredig.*] | **Nid yw** Unedau Cyfeirio Disgyblion wedi'u diffinio yn Neddf 2013 fel ysgolion a gynhelir, felly **nid yw'r** cynigion trefniadaeth ysgolion a nodir yma yn gymwys.<br>Nid oes proses statudol gyfatebol sy'n llywodraethu cynigion i sefydlu, cau neu ad-drefnu Unedau Cyfeirio Disgyblion. Yn hytrach, gwneir penderfyniadau o'r fath gan awdurdodau lleol o dan eu dyletswyddau cyffredinol ac fe'u llywodraethir gan ystod o ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n ymwneud ag Unedau Cyfeirio Disgyblion, gan gynnwys **Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014.** |

## Beth ddylid ei ystyried wrth ddatblygu cynigion?

Mae Adran 1 y Cod yn nodi'r hyn y dylid ei ystyried pan fydd cyrff perthnasol yn datblygu ac yn ystyried cynigion, ac amlinellir yr ystyriaethau hyn isod.

### Ansawdd a safonau

Dylai cynigion flaenoriaethu buddiannau dysgwyr uwchlaw popeth arall. Dylai'r cyrff perthnasol asesu:

- yr effaith ar addysgu a dysgu, llesiant, gofal a chymorth, ac arweinyddiaeth a rheoli;

- yr effaith ar ddysgwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY);
- gallu ysgolion i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (3-16 oed).

Os bydd cynnig yn golygu trosglwyddo'r ddarpariaeth o un ysgol i ysgol arall, dylai fod tystiolaeth ar gael i ddangos y bydd hyn yn arwain at ddarpariaeth cystal neu'n well. Dylid ystyried adroddiadau arolygiadau a chyngor gan Estyn fel rhan o'r broses hon.

## Yr effaith ar y Gymraeg

O drydydd argraffiad y Cod ymlaen, rhaid i bob cynnig gynnwys Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Rhaid i hyn:

- asesu'r effaith ar ddefnydd a darpariaeth y Gymraeg;
- dangos aliniad â **Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a Cymraeg 2050**; ac
- egluro unrhyw ostyngiad yn y ddarpariaeth Gymraeg a nodi mesurau lliniaru.

Rhaid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg gyda'r ddogfen ymgynghori neu o fewn iddi (gweler Pennod 4 y canllaw hwn).

## Yr angen am leoedd a hygyrchedd

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o leoedd ysgol ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd.

Dylai cynigion ar gyfer cau ysgolion, lleihau capasiti, neu grebachu ystod oedran ystyried:

- capasiti ac ansawdd digonol o ddarpariaeth amgen o ansawdd cyfatebol o leiaf;
- galw am fathau penodol o ddarpariaeth (e.e., ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion ffydd);
- amseroedd teithio dysgwyr a hygyrchedd;
- cydymffurfio â **Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008**.

Mae'r gofynion ychwanegol yn cynnwys hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy (megis cerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus), ystyried diogelwch a hygyrchedd safleoedd, ac ymgysylltu â Medr lle mae darpariaeth ôl-16 yn cael ei heffeithio.

Pan gynigir ysgol newydd neu gynnydd mewn capasiti neu ystod oedran, dylai cyrff perthnasol ystyried, yn *ychwanegol* i'r uchod:

- tystiolaeth o'r angen/galw yn yr ardal yn y dyfodol am y lleoedd ychwanegol, o ran categori iaith, cymeriad crefyddol dynodedig a'r rhywiau; ac
- a fydd y cynigion yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â'r gofynion o dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

## Goblygiadau o ran adnoddau ac arian

Dylai cynigion sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau a chyllid addysg, gan gynnwys ystyried yr effaith ar y canlynol:

- lleoedd gwag a defnydd effeithiol o gapasiti ysgolion (yn enwedig mewn ardaloedd â mwy na 10% o leoedd sydd dros ben);
- alinio â rhaglen fuddsoddi **Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu**;
- refeniw, costau cyfalaf, arbedion net a diffygion cyllidebol;
- cynaliadwyedd ariannol hirdymor; a
- chostau a goblygiadau trafnidiaeth.

Mae rhagor o fanylion am sut y caiff y ffactorau hyn eu rhoi ar waith ym mharagraffau 1.21 i 1.23 o'r Cod.

## Ffactorau cyffredinol eraill

Mae'r Cod hefyd yn nodi rhai ffactorau cyffredinol eraill i'w hystyried, gan gynnwys:

- effaith ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig;
- materion cydraddoldeb;

- unrhyw fuddiannau elusennol sy'n effeithio ar eiddo'r ysgol; a
- fframweithiau polisi ehangach (megis **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)**.

## Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

Mae rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Rhaid i gynigwyr:

- nodi’n glir y rhesymau dros gau;
- nodi ac asesu dewisiadau amgen rhesymol (e.e., ffederasiwn); a
- dangos mai'r cau yw'r opsiwn mwyaf priodol.

Nid yw’r rhagdybiaeth yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau. Fodd bynnag, rhaid i’r achos dros gau fod yn gryf ac ni ddylid gwneud y penderfyniad i gau ysgol hyd nes i bob opsiwn arall gael ei ystyried yn gydwybodol. Rhoddir esboniad pellach ym mharagraffau 1.28 i 1.44 o'r Cod.

Mae Atodiad F y Cod yn rhestru ysgolion ledled Cymru sy'n cael eu hystyried yn ysgolion gwledig.

## Yr effaith ar gymunedau

Pan gynigir cau neu newidiadau mawr, rhaid cynnal Asesiad Effaith ar y Gymuned. Dylai hyn asesu:

- defnydd y gymuned o gyfleusterau’r ysgol;
- effeithiau economaidd a chymdeithasol lleol;
- pa wasanaethau amgen sydd ar gael.

## Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Yn dilyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, mae'r holl ganllawiau perthnasol yn y Cod wedi'u diweddaru gan ddefnyddio terminoleg ADY. Rhaid i gynigion wneud yr hyn a ganlyn:

- cefnogi cynhwysiant mewn lleoliadau prif ffrwd lle bo hynny'n briodol; ac

- alinio â strategaethau lleol ar gyfer darpariaeth ADY.

Mae ffactorau ychwanegol i'w hystyried lle bydd cynigion yn ceisio ad-drefnu'r ddarpariaeth ADY. Dylai cyrff perthnasol ystyried sut mae'r cynigion yn cyd-fynd â chynlluniau'r awdurdod lleol i hybu cynhwysiant (h.y. darparu ar gyfer cyfran uwch o ddisgyblion sydd ag ADY er mwyn iddynt fynychu lleoliadau'r brif ffrwd) lle bynnag y bo hynny'n briodol er mwyn diwallu anghenion unigol plentyn neu berson ifanc, ac o fewn ei strategaeth gyffredinol ar gyfer sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer yr ystod gyfan o ADY. Rhestrir ffactorau ychwanegol ym mharagraff 1.14 o'r Cod.

## Ffactorau penodol ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion

Mae'r Cod yn nodi rhai **ffactorau penodol** y dylid eu hystyried ym mhob un o'r mathau penodol o gynnig a restrir isod:

- cynigion i ychwanegu neu i gau dosbarthiadau meithrin (paragraff 1.44);
- cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu i ychwanegu neu ddileu chweched dosbarth (paragraff 1.45);
- cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion gwirfoddol neu i sefydlu ysgol wirfoddol newydd (paragraff 1.46);
- cynigion i newid cyfrwng iaith (paragraff 1.47); a
- chynigion i newid categori ysgol (paragraff 1.48).

# 4. Ymgynghori ynglŷn â chynigion

## Mae Adran 48 o Ddeddf 2013 yn mynnu, cyn cyhoeddi cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion, bod yn rhaid cael proses ymgynghori yn eu cylch gyntaf.

Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion sy'n effeithio ar ysgolion bach â llai na 10 o ddysgwyr. Yn yr achosion hyn, mae'r broses yn cael ei symleiddio a gall fynd yn uniongyrchol i hysbysiad statudol (gweler Pennod 5 o'r canllaw hwn).

### Gofynion ymgynghori

Mae **cyfraith achosion** wedi sefydlu'r **pedair egwyddor** ganlynol ar gyfer ymgynghori:

- dylai ddigwydd pan fydd y cynigion yn dal ar gam ffurfiannol;
- dapraru digon o resymau a gwybodaeth ynglŷn â chynigion penodol er mwyn sicrhau ystyriaeth ac ymateb "deallus";
- caniatáu digon o amser (gweler yr adran isod) ar gyfer ystyried ac ymateb; a
- sicrhau bod yr ymatebion yn cael eu hystyried yn "gydwybodol" wrth wneud penderfyniad terfynol.

Os bydd ymgynghori anffurfiol â rhanddeiliaid penodol yn ystod cam cynharach y broses, rhaid peidio ag ystyried bod hynny'n disodli'r prosesau ymgynghori ffurfiol.

### Y ddogfen ymgynghori

Cyn cyhoeddi cynnig drwy hysbysiad statudol, rhaid i gynigwyr gyhoeddi dogfen ymgynghori, ar eu gwefan neu wefan yr awdurdod lleol yn gyntaf, gyda chopïau caled ar gael ar gais. Mae paragraff 3.15 o'r Cod yn rhestru'r bobl a'r sefydliadau y mae'n rhaid anfon y ddogfen ymgynghori atynt.

Rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori yn ystod tymor yr ysgolion dan sylw a rhaid rhoi o leiaf **42 diwrnod** i'r rhai yr ymgynghorir â hwy ymateb i'r ddogfen,

gydag o leiaf **20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol.** Ym mhob cynnig, rhaid i'r ddogfen ymgynghori gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- disgrifiad o'r cynnig a'i fuddion;
- manylion yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt;
- ansawdd a safonau mewn addysg;
- yr effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gydag Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg;
- Asesiad Effaith ar y Gymuned, os oes angen;
- cyllid;
- unrhyw dir ac adeiladau y gellid eu trosglwyddo; a
- manylion ymgynghori (e.e. sut i ymateb neu sut i gael gafael ar ragor o wybodaeth).

Mae paragraff 3.17 o'r Cod yn rhoi rhagor o fanylion am gwmpas llawn y wybodaeth i'w chynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

Mae'r Cod hefyd yn rhestru gwybodaeth benodol y mae'n rhaid ei chynnwys yn y ddogfen ymgynghori yn dibynnu a yw'r cynnig yn ymwneud ag ysgol newydd, cau ysgol, ysgol arbennig, darpariaeth chweched dosbarth, ysgol cyfrwng Cymraeg, ysgol ffydd, ysgol wledig ynteu newid categori.

## Ymgyngoreion

Rhaid ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys, ymhlith eraill:

| | | |
|---|---|---|
| Rhieni, dysgwyr a staff | Awdurdodau lleol | Estyn |
| Gweinidogion Cymru | Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol | Cyrff crefyddol (os yw'n berthnasol) |
| Medr (ar gyfer ôl-16) | Comisiynydd y Gymraeg | Sefydliadau trydydd sector a chymunedol |

*O.N. Mae rhestr lawn wedi'i chynnwys ym mharagraff 3.15 o'r Cod.*

Rhaid i'r cynigydd wneud trefniadau priodol i ymgynghori â disgyblion unrhyw ysgol yr effeithir arni a, lle bo modd, â'r plant a'r bobl ifanc sy'n debygol o fynychu'r ysgolion hynny. **Fan leiaf, rhaid i hyn gynnwys ymgynghori â chynghorau ysgol yr ysgolion dan sylw** ond dylai hefyd gynnwys ymgynghori â dysgwyr unigol lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol.

Nid oes gofyniad i gynnal cyfarfodydd ymgynghori wyneb yn wyneb er bod y Cod yn dweud y gallai hyn fod o fudd i gynigwyr.

### Adroddiad ar yr ymgynghoriad

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rhaid i'r cynigydd gyhoeddi **adroddiad ar yr ymgynghoriad** sy'n gwneud y canlynol:

- yn crynhoi pob mater a godwyd gan yr ymgyngoreion;
- yn ymateb i'r rhain ar ffurf esboniad, diwygiad i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau i gefnogi hynny; ac
- yn nodi ac yn ymateb i farn Estyn (fel y'i darperir yn ymateb yr Arolygiaeth) gydag eglurhad, gwelliannau i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau ategol.

Gallai'r adroddiad ar yr ymgynghoriad wneud argymhellion hefyd – er enghraifft, i weithrediaeth yr awdurdod lleol neu i'r corff llywodraethu – ynghylch sut i fwrw ymlaen.

Rhaid cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymgynghoriad ar ffurf electronig ar wefan y cynigydd/yr awdurdod lleol, a darparu copïau caled os gwneir cais amdanynt. Rhaid rhoi gwybod i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, aelodau o staff yr ysgolion dan sylw, a'r ymgyngoreion sydd wedi gofyn am gael eu hysbysu bod yr adroddiad ar gael.

Nid yw'r cyfnod ymgynghori yr un fath â'r cyfnod gwrthwynebu statudol, sy'n dilyn cam diweddarach, sef cyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol. Dylid rhoi gwybod i'r ymgyngoreion sy'n mynegi barn yn erbyn y cynnig **na fydd eu sylwadau'n cael eu trin fel gwrthwynebiadau** ac os ydynt yn dymuno gwrthwynebu y bydd angen iddynt wneud hynny yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol diweddarach.

# 5. Cyhoeddi cynigion ar ffurf hysbysiad statudol

## Os bydd yn mynd rhagddo, rhaid cyhoeddi cynigion drwy hysbysiad statudol.

Rhaid i hysbysiad statudol o gynigion fodloni'r amodau a ganlyn:

1. cael ei gyhoeddi o fewn 26 wythnos i ddiwedd y cyfnod ymgynghori (oni bai bod cynigwyr wedi gwneud cais am estyniad amser ac wedi cael caniatâd i wneud hynny gan Weinidogion Cymru), ond dim cyn gynted â phythefnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori;
2. cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol;
3. cynnwys manylion allweddol y cynnig a chynlluniau gweithredu (gweler Adran 4 y Cod).

Os na fydd cynigion yn cael eu cyhoeddi o fewn yr amserlen o 26 wythnos, yna bydd y cynnig yn dod i ben a bydd angen cynnal proses ymgynghori newydd os yw'r cynigwyr yn dymuno parhau.

Mae adran 4 o'r Cod yn dweud ymhle y mae'n rhaid cyhoeddi'r hysbysiad a beth y mae'n rhaid iddo'i gynnwys.

### Gwrthwynebiad statudol

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno cofrestru **gwrthwynebiad statudol** i'r cynnig wneud hynny drwy anfon llythyr neu e-bost at y cynigydd cyn pen **28 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r cynnig.** Gelwir y cyfnod hwn o 28 diwrnod yn 'gyfnod gwrthwynebu' a rhaid iddo gynnwys 15 diwrnod ysgol (yn ogystal â'r diwrnod cyhoeddi).

# 6. Penderfynu ar gynigion a'u gweithredu

Fel arfer, yr awdurdod lleol sy'n penderfynu ar gynigion, ar yr amod y dilynwyd y broses statudol a nodir yn y Cod. Fodd bynnag, mae rhai amgylchiadau pwysig lle mae'n rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ar gynigion yn lle hynny, a rhai llwybrau cyfyngedig y gellir ailystyried penderfyniadau drwyddynt. Gall Medr hefyd chwarae rhan mewn cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth ôl-16, gan gynnwys cyfarwyddo neu wneud cynigion, ond nid Medr yw'r un sy'n gwneud y penderfyniadau fel arfer.

## Adroddiadau gwrthwynebu

Pan ddaw gwrthwynebiadau i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol (a amlinellir uchod), rhaid i'r cynigydd gyhoeddi adroddiad gwrthwynebu. Rhaid i'r adroddiad hwn wneud yr hyn a ganlyn:

- crynhoi'r holl wrthwynebiadau statudol a ddaw i law; a
- darparu ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny.

Mae amseriad y cyhoeddi yn dibynnu ar bwy sy'n gyfrifol am benderfynu ar y cynnig:

- Lle bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu ynghylch ei gynnig *ei hun*, rhaid cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebu **cyn pen 7 diwrnod ar ôl y penderfyniad**.
- Ym mhob achos arall, rhaid cyhoeddi'r adroddiad **cyn pen 28 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu**.

Yna rhaid cyhoeddi'r adroddiad yn electronig, gyda chopïau caled ar gael ar gais, tra bod rhaid hysbysu rhieni, gofalwyr, staff yr ysgolion yr effeithir arnynt,

ac ymgyngoreion eraill a bennir yn y Cod am yr adroddiad gwrthwynebu (gweler Adran 5 o'r Cod).

## Awdurdodau lleol yn penderfynu

Yn y rhan fwyaf o achosion, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion. Os bydd awdurdod lleol yn gyfrifol am benderfynu ar gynnig, rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Cod. Mewn achosion o'r fath, rhaid penderfynu ar y cynnig o fewn **16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu**, yn unol â'r gofynion statudol. Os na cheir penderfyniad o fewn y cyfnod 16 wythnos, ni all y cynnig fynd rhagddo a byddai angen proses newydd.

Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried pob gwrthwynebiad yn briodol a rhaid iddo beidio ag ymdrin â'r penderfyniad â meddwl caeedig. Rhaid ystyried gwrthwynebiadau ochr yn ochr â'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r cynnig a'r ffactorau statudol a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu ac asesu'r cynnig.

Fel arfer, **Gweithrediaeth neu Gabinet** yr awdurdod lleol sy'n gwneud penderfyniadau. Fel arall, gall yr awdurdod ddefnyddio pwyllgor gwneud penderfyniadau lleol, fel y model a ddisgrifir yn Atodiad D i'r Cod.

Lle mae gwrthwynebiadau statudol wedi dod i law, rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad gwrthwynebu (gan ddilyn y broses a amlinellwyd uchod).

Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud, mae'n rhaid iddo:

- cael ei gyhoeddi yn ysgrifenedig a'i gyhoeddi'n electronig;
- nodi'n glir y rhesymau dros y penderfyniad, gan gyfeirio at y ffactorau perthnasol yn y Cod; a
- cael ei hysbysu i rieni, gofalwyr, staff a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

## Eithriadau i'r rheol gyffredinol bod awdurdodau lleol yn penderfynu ynghylch cynigion

Er bod y penderfyniad am y rhan fwyaf o gynigion yn digwydd yn lleol, mae eithriadau penodol lle mae'n rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ar gynigion yn lle hynny.

O dan God 2026, dim ond pan fo'r ddau amod canlynol yn cael eu bodloni y mae hyn yn berthnasol:

- mae'r cynnig yn dod o fewn categori a benodir; ac
- mae gwrthwynebiad wedi'i wneud a heb ei dynnu'n ôl yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Mae'r amgylchiadau hyn yn codi yn y sefyllfaoedd canlynol:

- bydd y cynigion yn effeithio ar addysg y chweched dosbarth; neu
- gwnaed y cynigion gan gorff heblaw'r awdurdod lleol (er enghraifft, corff llywodraethu), ac mae'r awdurdod lleol wedi gwrthwynebu'r cynnig.

Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth lle maent:

- yn sefydlu neu gau ysgol sy'n darparu addysg i ddysgwyr dros oedran ysgol gorfodol yn unig; neu
- yn gwneud newid rheoleiddiedig sy'n cynyddu neu'n lleihau lefel y ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgol.

Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cyflwyno neu gau darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol.

### Nodyn ar ddarpariaeth ôl-16

Mae Cod 2026 yn adlewyrchu cyflwyno'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), sydd â rôl strategol mewn perthynas ag addysg ôl-16. Er nad yw Medr fel arfer yn penderfynu ar gynigion ar y cam hwn, dylid ystyried ei rôl lle mae'r cynigion yn ymwneud â darpariaeth chweched dosbarth.

## Cynigion a wneir gan gyrff eraill

Mae rhai cynigion yn cael eu cyflwyno gan gyrff heblaw'r awdurdod lleol, megis cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol neu ysgolion sefydledig.

Pan nad yw'r cynnig yn dod o fewn y categorïau y mae angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru arnynt, *ac* os na wneir unrhyw wrthwynebiad a fyddai'n sbarduno gofyniad am gymeradwyaeth gan gorff arall, caiff y cynigydd benderfynu ar y cynnig ei hun.

Mewn achosion o'r fath, rhaid penderfynu ar y cynnig o fewn **16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu**, yn unol â'r gofynion statudol. Os na cheir

penderfyniad erbyn diwedd y cyfnod o 16 wythnos, ystyrir bod y cynnig wedi'i dynnu'n ôl a rhaid i'r broses ddechrau eto.

## Atgyfeirio penderfyniadau i Weinidogion Cymru

Ar ôl i awdurdod lleol benderfynu ar gynnig, mae amgylchiadau cyfyngedig lle gellir ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru i'w ystyried ymhellach.

O dan adran 54 o Ddeddf 2013, caiff y cyrff canlynol, o fewn **28 diwrnod o'r penderfyniad**, atgyfeirio cynnig i'r canlynol:

- awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni (er enghraifft, yr awdurdod esgobaethol yn achos ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu ysgolion Catholig Rhufeinig);
- corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun y cynigion;
- ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun y cynigion; a
- sefydliad addysg bellach y mae'n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arno.

Rhaid i'r corff sy'n atgyfeirio nodi pam mae o'r farn bod y penderfyniad a wnaed gan yr awdurdod lleol yn anghywir.

Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu'n gyntaf a yw'r cynigion yn effeithio'n ddigonol ar y corff sy'n atgyfeirio ac felly a oes angen eu hystyried. Os bydd gofyn i Weinidogion Cymru ystyried cynnig, rhaid i'r awdurdod lleol roi copïau iddynt, os gwneir cais am hynny, o'r gwrthwynebiadau statudol ac unrhyw wybodaeth arall y bydd Gweinidogion Cymru'n ei hystyried yn angenrheidiol.

Ar ôl ystyried, gall Gweinidogion Cymru:

- cymeradwyo'r cynnig;
- gwrthod y cynnig; neu
- gymeradwyo'r cynnig *gydag addasiadau*.

Mae unrhyw addasiadau fel arfer yn gyfyngedig i faterion fel **amseriad y gweithredu neu niferoedd derbyn**, a rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cynigydd a'r cyrff perthnasol cyn eu gwneud.

## Camau gweithredu pellach i bartïon anfodlon

Mae'r Cod yn darparu llwybrau cyfyngedig ar gyfer herio penderfyniadau.

Dim ond y cyrff a restrir uchod gaiff atgyfeirio penderfyniad awdurdod lleol at Weinidogion Cymru. Felly **nid oes proses apelio gyffredinol i wrthwynebwyr ar ôl i benderfyniad gael ei wneud.**

Fodd bynnag, mae'n bosibl ceisio adolygiad barnwrol sy'n ystyried a wnaed y penderfyniad yn gyfreithlon ac a ddilynodd y prosesau cywir. Yn ogystal, gellir gwneud cwynion i **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** am y ffordd y mae penderfyniad wedi'i wneud, er bod hyn yn ymwneud â chamweinyddu yn hytrach na rhinweddau'r penderfyniad ei hun.

# 7. Ymyrraeth a chynigion y tu allan i'r broses safonol

## Er bod y rhan fwyaf o gynigion trefniadaeth ysgolion yn cael eu cyflwyno a'u penderfynu gan awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu, mae'r Cod hefyd yn darparu ar gyfer nifer o achosion arbennig lle gall cyrff eraill gychwyn neu gyfarwyddo cynigion.

### Cynigion gan Weinidogion Cymru

Mae Deddf 2013 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd â threfniadaeth ysgolion ac, mewn rhai amgylchiadau, gwneud y cynigion eu hunain.

Yn gyffredinol, ystyrir y pwerau hyn yn bwerau pan fetho popeth arall, a byddent fel arfer yn cael eu defnyddio lle nad yw camau gweithredu lleol wedi bod yn ddigonol i fynd i'r afael â phroblemau yn narpariaeth ysgolion.

Gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi cynigion lle maent wedi cyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i gymryd camau gweithredu o'r blaen, ond nad yw hyn wedi arwain at y newidiadau angenrheidiol i ddarpariaeth ysgolion. Gall hyn gynnwys sefyllfaoedd lle mae awdurdod lleol wedi methu â sicrhau'r hyn a ganlyn:

- bod digon o leoedd ysgol ar gael o ran nifer, math ac ansawdd;
- bod gan ddysgwyr fynediad rhesymol at ddarpariaeth addysg addas; neu
- fod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i sicrhau'r canlyniadau addysgol gorau posibl.

### Proses a gweithdrefn

Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno cynigion, rhaid iddynt ddilyn yr un gweithdrefnau statudol â chynigwyr eraill, gan gynnwys cyhoeddi cynigion a

chyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod lle gall unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad.

Os daw gwrthwynebiadau, rhaid i Weinidogion Cymru fel arfer drefnu cynnal ymchwiliad lleol. Bydd yr ymchwiliad hwn yn cael ei gynnal gan berson annibynnol a fydd yn ystyried y dystiolaeth ac yn darparu adroddiad i Weinidogion Cymru.

Ar ôl yr ymchwiliad, gall Gweinidogion Cymru wneud y canlynol:

- mabwysiadu'r cynnig (gyda neu heb addasiadau);
- gwrthod y cynnig; neu
- ystyried unrhyw gynigion cysylltiedig ochr yn ochr ag ef.

Mewn rhai achosion, gall Gweinidogion Cymru gyflwyno cynigion pellach ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau, heb yr angen am ymchwiliad pellach.

### Darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Mae gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i gyhoeddi cynigion i sicrhau **darpariaeth ranbarthol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.** Fel gyda chynigion eraill, mae'r prosesau safonol o ymgynghori, cyhoeddi a gwrthwynebu yn berthnasol, a gall Gweinidogion Cymru benderfynu a ddylid mabwysiadu'r cynnig ai peidio ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau.

## Cynigion gan Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)

Mae Cod 2026 yn adlewyrchu cyflwyno’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Mae gan Medr rôl strategol mewn perthynas ag addysg ôl-16, gan gynnwys darpariaeth chweched dosbarth ysgolion, ac mae cynnwys Medr yn y Cod yn adlewyrchu’r symudiad tuag at ddull mwy strategol, system-gyfan o ran darpariaeth ôl-16.

Mewn perthynas â chynigion trefniadaeth ysgolion sy'n effeithio ar y chweched dosbarth, gall Medr gyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i gyflwyno cynigion, neu wneud cynigion ei hun, lle bo angen, yn enwedig mewn perthynas ag ailstrwythuro darpariaeth chweched dosbarth.

Pan fydd Medr yn cyflwyno’i gynigion ei hun, mae'r un gweithdrefnau statudol yn berthnasol ag ar gyfer cynigwyr eraill. Efallai y bydd angen i gynigion gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru os daw gwrthwynebiadau i law.